

## CYNGOR CYMUNED LLANDDAROG COMMUNITY COUNCIL

**Cofnodion o gyfarfod mis Ebrill 2019 Cyngor Cymuned Llanddarog a gynhaliwyd ar 10/04/2019 yn Neuadd / Clwb Mynyddcerrig am 7.30pm**

**Minutes of the April 2019 meeting of Llanddarog Community Council held on 10/04/2019 in Mynyddcerrig Hall / Club at 7.30pm**

**312/2018-19 Presennol / Present:**

Cynghorwyr / *Councillors*: R Owen (Cadeirydd / Chairman), R Jones, J Youens, M Rees, J Williams O.B.E., T Evans, S Herridge, & R Newell.

Cyng Sir / *County Cllr* A Davies (7.55pm)  
Clerc / *Clerk & Cyfieithydd / Translator*

**313/2018-19 Ymddiheuriadau / Apologies.**

Cyng / *Councillor*: E Davies

**314/2018-19 Datganiadau o fuddiannau personol /**

**Declarations of personal interest**

Fe wnaeth y Clerc datgan diddordeb yn eitem agenda 24 (arolwg). / *The Clerk declared an interest in agenda item 24 (appraisal).*

**315/2018-19 Cyfle i'r cyhoedd i annerch y Cyngor ar eitemau'r agenda /**  
**Opportunity for the public to address the Council on agenda items**

Dim / *None*

**316/2018-19 Materion Plismona a diogelwch ffyrdd /**

**Policing and Road Safety Matters**

Fe wnaeth Aelodau gynghori fod y marciau heol sydd wedi pylu yn Mynyddcerrig, yn ogystal â'r arwydd "rhowch ffordd" sydd ar goll ar "Cyffordd T" yn Llanddarog (cofnod 289/2018-19), dal yn faterion heb ei ddatrys. Hefyd, fynegwyd pryder am dwll yn y ffordd yn Nant yr Efail, Mynyddcerrig. Penderfynwyd anfon y pryderon hyn ymlaen i'r Cyngor Sir. / *Members advised that the faded road markings in Mynyddcerrig, along with the missing give way sign at the T Junction in Llanddarog (minute 289/2018-19) were still matters to be addressed. Concerns were also expressed as to a pothole in the road at Nant yr Efail, Mynyddcerrig. Resolved to forward these concerns to the County Council.*

**317/2018-19 Adroddiad y Cadeirydd / Chairman's Report**

Croesawodd y Cadeirydd pawb i'r Cyfarfod. Rhoddodd ddiweddariad ar drefnu Cinio'r Cadeirydd a dywedodd nad yw'r dyddiad wedi'i gadarnhau eto. Diolchodd i'r Cynghorwyr M Rees a J Youens am eu cymorth wrth drefnu'r cinio. Diolchodd i'r Cyng. J Youens am brynu'r tlysau ar gyfer y gwobrau Cymunedol a Phobl Ifanc. Bydd y rhain yn cael eu cyflwyno yn y Gwasanaeth Cymunedol ar 9 Mehefin 2019. Penderfynwyd diolch i'r Cadeirydd am ei adroddiad a chadarnhau ad-daliad i'r Cyng Youens am brynu'r tlysau yn unol â chyflwyno derbynneb. / *The Chairman welcomed everyone to the meeting. He provided an update on the arranging of the Chairman's Dinner and stated that the date is still to be confirmed. He thanked Cllrs M Rees and J Youens for their assistance in arranging the dinner. He thanked Cllr J Youens for*

*purchasing the trophies for the Community and Young People awards. These will be presented at the Community Service on June 9 2019. Resolved to thank the Chairman for his report and to ratify reimbursement of Cllr Youens for purchasing the trophies upon production of receipt.*

**318/2018-19** Cadarnhau ac arwyddo Cofnodion Cyfarfod y Cyngor ar 13/3/19  
/ Confirmation and signing of the Minutes of the Council Meeting 13/3/19

*Ar ôl cynnig gan y Cyng M Rees ac eilio gan Cyng R Jones; penderfynwyd cadarnhau a llofnodi'r cofnodion (dan law'r cadeirydd llywyddol), yn amodol ar gywirdeb ffeithiol yn cael ei wneud i gofnod 302/2018-19 i ddweud '...bondiau cynilio premiwm gan y Cyngor ym amhosib.' yn hytrach na '...bondiau gan y Cyngor yn annhebygol o fod yn gyfreithlon.' / *Following a proposal by Cllr M Rees and seconding by Cllr R Jones, it was resolved to confirm and sign the minutes (under the hand of the presiding chairman), subject to it being noted that a factual correction should be made to minute 302/2018-19 to state '...premium savings bonds is not possible.' - instead of '...bonds is unlikely to be lawful'**

**319/2018-19** Materion yn Codi o'r cofnodion uchod / Matters arising from the above minutes.

(a) **Yng Cofnod - 293/2018-19a** - Y cyngor gan Un Llais Cymru yw mai'r Cyngor yw rhydd i benderfynu sut mae'n delio â gohebiaeth ddienw Penderfynwyd nodi. / **Minute 293/2018-19a refers** - *The advice from One Voice Wales is that it is up to the Council how it deals with anonymous correspondence. Resolved to note.*

(b) **Yng Cofnod - 293/2018-19c** - Y cyngor gan Un Llais Cymru yw bod y Cyngor yn gywir wrth ddarparu cost prynu asedau ar gyfer y ffurflen flynyddol ond y gellir cadw'r gwerthoedd yswiriant at ddibenion yswiriant yn ogystal. Penderfynwyd nodi. / **Minute 293/2018-19c refers** - *The advice from One Voice Wales is that the Council is correct in providing the purchase cost of assets for the annual return but that the insurance values can also be kept for insurance purposes. Resolved to note.*

(c) **Yng Cofnod - 293/2018-19e** - Mae Mr Ken Hibbard, contractwr lleol, wedi mynegi diddordeb mewn gwneud gwaith cynnal a chadw ar asedau'r Cyngor a bydd y Clerc yn cwrdd ag ef i drafod y rhestr o asedau (gan gynnwys y sedd yn Sgwâr Hibbard, Mynyddcerrig) ynghyd â gofynion yswiriant. Fe wnaeth y Cyng. M Rees trefnu rhoi'r slat yn ôl ar y sedd ger y White Hart, ynghyd â rhoi'r bwrdd dehongli yn ôl yn ei le. Penderfynwyd nodi a diolch i'r Cyng. M Rees. / **Minute 293/2018-19e refers** - *Local contractor Mr Ken Hibbard has expressed an interest doing maintenance work on the Council's assets and the Clerk will meet him to discuss the list of assets (including the seat at Sgwar Hibbard, Mynyddcerrig) along with insurance requirements. Cllr M Rees arranged for the slat on the seat adjacent to the White Hart, along with the interpretation board, to be put back in place. Resolved to note and thank Cllr M Rees.*

(d) **Yng Cofnod - 293/2018-19f** - Dywedodd y Cyng. J Williams ei fod wedi penderfynu peidio â chyflwyno sylwadau ar gyfer yr ymgynghoriad Penderfynwyd nodi. / **Minute 293/2018-19f refers** Cllr J Williams advised that he had decided not to submit comments for the consultation. Resolved to note.

(e) **Yng Cofnod - 296/2018-19** - Holodd yr Aelodau a ellid defnyddio Adran 137 / y pŵer lles i ariannu pryd y Cynghorydd Sir A Davies a'i gwest. Hysbyswyd yr Aelodau eu bod wedi penderfynu cynnig y gwahoddiad a bod angen priodoli pob gwariant i bŵer cyfreithiol. Penderfynwyd nodi. / **Minute 296/2018-19 refers** - Members queried as to whether section 137 / the power of well being could be used to fund the meal of County Cllr A Davies and guest. Members were advised that they had resolved to offer the invite and all expenditure needs to be attributed to a legal power. Resolved to note.

(f) **Yng Cofnod - 300/2018-19** - Awgrymodd yr Aelodau bod angen archwilio'r posibilrwydd o'r Cyngor yn gwneud ei drafodion ariannol ar-lein. Penderfynwyd archwilio'r mater hwn a'i gyflwyno i'r Cyngor maes o law. / **Minute 300/2018-19 refers** - It was suggested by Members that there is a need to explore the possibility of the Council undertaking its financial transactions online. Resolved that this matter be explored and brought back to Council in due course.

**320/2018-19 Materion Cyngor Sir - Cyng Sir A Davies / County Council matters - County Cllr A Davies**

Daeth y Cynghorydd A Davies i'r cyfarfod am 7.55am ac ar unwaith fe gyflwynodd ei hadroddiad. Mae wedi bod ynghlwm wth apeliadau cludiant ysgolion sy'n effeithio ei ward ac fe roddodd esboniad am y broses. Esboniodd y sefyllfa ddiweddaraf i'r Cyngor ynglŷn â'r newidiadau mewn grwpiau gwleidyddol o fewn y Cyngor Sir. Fe gadarnhaodd y byddai casglu sbwriel yn digwydd yn Llanddarog ar 11/4/19 a Phorthyrhyd ar 18/4/19. Atgoffodd yr aelodau hi am y materion a gododd yng nghofnod 316/2018-19 a gofyn hefyd iddi gael cyngor ynglŷn â ble y dylid rhoi arwyddion tawelu traffig yn sgil ceisiadau a wnaed ym Mhorthyrhyd a Mynyddcerrig. Penderfynwyd diolch i'r Cynghorydd Davies am ei hadroddiad. / *County Cllr A Davies entered the meeting at 7.55pm and immediately provided her report. She has been involved in school transport appeals affecting her ward and she advised on the process. She updated the Council on changes in political groupings within the County Council. She confirmed that litter picks will take place in Llanddarog on 11/4/19 and Porthyrhyd on 18/4/19. Members advised her of the issues raised in minute 316/2018-19 and also requested that she obtain advice as to where traffic calming signage could be put given requests made in Porthyrhyd and Mynyddcerrig. It was resolved to thank County Cllr Davies for her report.*

**321/2018-19 Gohebiaeth / Correspondence.**

(a) Nodwyd yr eitemau isod / *The below items were noted.*

| <b>Wrth / From</b>                                  | <b>Testun / Subject</b>   |
|---|---|
| <b>Cymorth Cynllunio Cymru / Planning Aid Wales</b> | Cylchlythr a Digwyddiadau/ hyfforddiant / <i>Newsletter and Events / training</i> |

|   |   |
|---|---|
| <b>Comisiynydd Gwybodaeth / Information Commissioner</b>                    | Cylchlythr / <i>Newsletter (inc regulatory sandbox – call for applications)</i>   |
| <b>Chwarae Cymru / Play Wales</b>   | Cyhoeddiadau / <i>Publications</i>  |
| <b>Cyngor Sir Caerfyrddin / Carmarthenshire County Council</b>              | (a) Fframwaith contractwyr rhanbarthol - cais am unrhyw waith cyfalaf dan ystyriaeth (b) Agenda y Fforwm Cyswllt Cyngorau Cymuned a Thref ar 19 Mawrth 2019 / (a) <i>Regional Contractors Framework – request for any known capital works (b) Agenda of Community and Town Council Liaison Forum meeting on 19 March 2019.</i>  |
| <b>Un Llais Cymru / One Voice Wales</b>                                     | (a) Hyfforddiant (b) Fe fydd Cyfarfod Pwyllgor Ardal Caerfyrddin am 7pm ar dydd Mawrth 2ail Ebrill 2019 (c) Bwletin newyddion / (a) <i>Training (b) The Carmarthenshire Area Committee meeting will be held at 7pm on Tuesday 2nd April 2019 (c) news bulletin</i>  |
| <b>Keep Britain Tidy</b>  | GB Spring Clean a gwybodaeth / <i>GB Spring Clean and information</i>   |
| <b>Cwar Torcoed Quarry</b>  | Hysbyseb oriau gweithio a cofnodion cyfarfod ymgysylltu 06/03/19 / <i>Notice hours of working and minutes of liaison meeting 06/03/19</i>   |
| <b>Merchant Navy Fund</b>   | Gwahoddiad/gwybodaeth - / <i>Fly the Red Ensign for Merchant Navy Day on September 3 - Information / invitation to support this year's campaign</i>   |
| <b>Cymdeithas Ddiwylliadol Capeli Heol Awst a Smyrna (Cultural Society)</b> | Bydd Côr Meibion Machynlleth yn dod i gynnal Cyngerdd yng Nghapel Annibynnol Heol Awst, Caerfyrddin ar 12/10/2019 – pwrpas yw codi arian at Uned Cancr y Fron, Ysbyty Tywysog Phillip, Llanelli – maen nhw yn gofyn am hysbesebu'r digwyddiad yng Nghyfarfod Cyngor Cymuned Llanddarog a hefyd maen nhw yn rhoi gwybodaeth am docynnau. / <i>Côr Meibion Machynlleth will be coming to give a concert in Capel Annibynnol Heol Awst Chapel, Lammas Street Carmarthen, on 12/10/2019 – the purpose is to raise money for breast cancer unit, Prince Phillip Hospital, Llanelli – they are asking for the event to be publicised in the Community Council meeting and they also provide information on tickets.</i> |
| <b>Llywodraeth Cymru / Welsh Government</b>                                 | Ymgynghoriad: Trafodaeth o'r cynigion i ddiwygio Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 / <i>Consultation: Consideration of proposals to amend the Public Audit (Wales) Act 2013</i>  |

(b) Gweithredoedd yn sgil ohebiaeth / *Actions resulting from correspondence:*  
**1 E-bost gan breswilydd Porthyrhyd** - Derbyniwyd yr e-bost ar ôl i'r agenda fynd allan ond roedd yr Aelodau yn hapus i'w drafod gan nad oedd iddo unrhyw oblygiadau ariannol sylweddol na materion polisi i'r Cyngor hwn. Amlinellodd y gohebydd ei bryderon ynglŷn â'i ddealltwriaeth o Newidiadau Cyngor Sir Caerfyrddin i Ganolfannau Ail Gylchu Gwastraff Tai o Ebrill 1 2019 (tip Nant-y-caws yn benodol). Roedd llythyr a anfonodd y gohebydd at Brif Weithredwr y Cyngor Sir yn atodol. Roedd y gohebydd yn gofyn i'r Cyngor Cymuned i gefnogi ei safbwynt a throsglwyddo'r llythyr i'r Cyngor Sir. Cyngorodd y Cyngorydd A Davies y Cyngor ynglŷn â'r mater hwn gan ei bod wedi bod mewn cysylltiad â'r gohebydd. Tra roedd y Cyngor Cymuned yn cydymdeimlo gyda'r ymgais i rwystro pobol o'r tu allan i'r Sir rhag defnyddio Nant-y-caws (ystyriwyd y cais am ID yn un rhesymol) roedd y Cyngor

Cymuned yn teimlo fod y cyfiawnhad dros weithredu'r pecyn ehangach o newidiadau yn aneglur, yn enwedig achos y diffyg ymgynghori/esboniad. Penderfynwyd bod y Cyngor Cymuned yn anfon yr ohebiaeth ymlaen at y Cyngor Sir trwy law'r Cyngorydd Sir A Davies. Gwneir sylwadau hefyd yn amlinellu pryderon y Cyngor Cymuned gyda'r diffyg ymgynghori a ymgwymerwyd. Mae'r Cyngor Cymuned yn bryderus hefyd gyda'r posibilrwydd o dipio anghyfreithlon yn digwydd ac fe nodwyd agosatrwydd Nant-y-caws at ardal y Cyngor Cymuned mewn hyn o beth. /

***E mail from Porthyrhyd resident*** – *The e mail was received after the agenda had gone out but Members were happy to consider it as it had no substantive financial or policy implications for this Council. The correspondent outlined his concerns in relation to his understanding of Carmarthenshire County Council's Changes to Household Waste Recycling Centres from April 1 2019 (Nantycaws tip specifically). A letter that the correspondent had sent to the Chief Executive of the County Council was attached. The correspondent was asking for the Community Council to support his position and pass the letter onto the County Council. County Cllr A Davies advised the Council on this matter having been in dialogue with the correspondent. Whilst the Community Council sympathised with the attempt to stop people from outside the County using Nantycaws tip (the requirement for ID was deemed reasonable), the Community Council felt that the justification for implementing the wider package of changes was unclear, particularly given the lack of consultation / explanation. It was resolved that the Community Council forward the correspondence to the County Council through County Cllr A Davies. Representations will be also be made outlining the Community Council's concerns with the lack of consultation undertaken. The Community Council is also concerned as to the potential for fly tipping to occur and the close proximity of Nantycaws to the Community Council area was duly noted in this regard.*

### **322/2018-19 Cyfethol Mr Hefin Jones / Co-option of Mr Hefin Jones**

Derbyniwyd un cais ysgrifenedig gan Mr Hefin Jones, Nantylffin, Porthyrhyd. Roedd y cais wedi cael ei ddarparu i'r Aelodau cyn y cyfarfod. Nodwyd bod yr ymgeisydd yn Gynghorydd eisioes gyda Chyngor Cymuned Llanarthne. Mae Adran Gwasanaethau Etholiadol y Cyngor Sir wedi cadarnhau ei bod yn bosibl bod yn Gynghorydd ar fwy nag un Cyngor cyhyd â bod y person hwnnw'n gymwys. Penderfynwyd cyfethol Mr Hefin Jones a rhoi awdurdod i'r Clerc dystio ei fod wedi llofnodi'r datganiad derbyn swydd cyn gynted â phosibl. / *One written application had been received from Mr Hefin Jones, Nantylffin, Porthyrhyd. The application had been provided to Members in advance of the meeting. It was noted that the applicant is a serving Councillor with Llanarthne Community Council. The County Council's Electoral Services Department has confirmed that it is possible to be a Councillor on more than one Council so long as that person is qualified. It was resolved that Mr Hefin Jones be co-opted and that the Clerk be given authority to witness his signing of the declaration of acceptance of office as soon as possible.*

**323/2018-19 Blaenoriaethu prosiectau o raglen prosiectau arbennig y Cyngor a sefydlu grŵp gweithio / Prioritising projects from the Council's special projects programme and establishing a working group**

Darparwyd adroddiad i'r Aelodau cyn y cyfarfod. Nodwyd fod y Cyngor eisoes wedi cynnal prosiect ym Mynyddcerrig yn y tymor hwn (arwyddion). Y prosiectau posibl a restrir o fewn yr adroddiad oedd: darparu cysgodfa yn Llanddarog, arwyddion cyflymder (potensial am bartneriaeth gyda'r Cyngor Sir) ym Mhorthyrhyd a buddsoddiad goleuadau stryd LED (ar draws y gymuned). Cyfanswm y gyllideb yn y gronfa wrth gefn ar gyfer prosiectau arbennig ar Ebrill 1 2019 yw £3,850 gyda'r posibilrwydd o'i chwyddo ymhellach yn ystod y flwyddyn. Penderfynwyd fod y Cyngor yn rhoi blaenoriaeth i osod cysgodfa yn Llanddarog ac arwyddion cyflymder ym Mhorthyrhyd am weddill tymor y Cyngor hwn. Bydd gweithgor yn cynnwys y Cyngorwyr canlynol yn gyrru'r prosiectau - M Rees, J Williams a S Herridge. Bydd y Cyngorwyr Sir A Davies yn cynorthwyo fel bo'r angen. Penderfynwyd rhoi awdurdod i'r gweithgor i weithio ar gostau/cael amcan brisiau angenrheidiol, cadarnhau lleoliadau, adnabod cynigyddion dewisol/manylion a chael unrhyw caniatâd(au) sydd angen. Penderfynwyd mewn perthynas â'r arwyddion cyflymder gall y Cyngor yn rhoi o'r neilltu ei reoliadau ariannol ar sail fod hwn yn wasanaeth arbenigol a ddarperir trwy rôl y Cyngor Sir fel Awdurdod Traffyrdd (rheol 11.1 (a) (ii)). Bydd y Cyngor Sir, fel Awdurdod cyhoeddus yn edrych am y gwerth gorau wrth gyflwyno gwasanaethau, a rhagwelir y byddan nhw'n ariannu'r prosiect yn rhannol beth bynnag. Penderfynwyd unwaith y bydd y prosiectau yma wedi'u paratoi hyd at y pwynt o'u gweithredu, yna fe fyddan nhw'n cael dod yn ol at y Cyngor ar gyfer eu cadarnhau. / *A report had been provided to Members in advance of the meeting. It was noted that the Council has already delivered a project in Mynyddcerrig in this term (signage). The potential projects listed within the report were: provision of a shelter in Llanddarog, speed signage (potential partnership with the County Council in Porthyrhyd) and LED street lighting investment (community wide). The total budget in the special projects reserve as at April 1 2019 is £3,850 with potential to swell it further during the year. It was resolved that the Council prioritise the delivery of the Llanddarog shelter and Porthyrhyd speed signage for the remainder of this Council term. A working group consisting of the following Councillors will drive the projects – M Rees, J Williams and S Herridge. County Councillor A Davies will assist as required. It was resolved that the working group be given authority to work up costs/obtain necessary quotes, confirm locations, identify preferred bidders/specification and obtain any required consent(s). It was resolved that in relation to the speed signage, the Council can set aside its financial regulations on the basis that this is a specialist service provided via the County Council's role as Highway Authority (regulation 11.1(a)(ii)). The County Council, as a public Authority, will be looking for best value when delivering services, and it is envisaged that they will part fund the project in any case. It was resolved that once these projects are worked up to the point of instruction, then they will be brought back to Council for ratification.*

### **324/2018-19 Cynllunio / Planning**

#### **(a) Ceisiadau / Applications**

Daeth y ceisiadau islaw i law ar ol i'r agenda gael ei anfon allan ond roedd Aelodau yn hapus i'w ystyried. / *The below applications were received after the agenda had been sent out but Members were happy to consider them:*

(i) W/38661 - VARIATION OF CONDITION - VARIATION OF CONDITION 2 ON W/36288 (REDUCE OVERALL SCALE OF THE PROPOSED DWELLING) - LAND ADJACENT TO FORMER SCHOOL, MYNYDDCERRIG, LLANELLI, SA15 5BG  
Penderfynwyd nodi / Resolved to note.

(ii) W/38664 – CYNLLUNIO LLAWN/ FULL PLANNING - DETACHED GARAGE AND EXTENSION TO DOMESTIC CURTILAGE TO INCLUDE GARAGE AND ACCESS - BRYN GWENDRAETH, LLANDDAROG, CARMARTHEN, SA32 8PB  
Penderfynwyd nodi / Resolved to note.

#### **(b) Ymgynghoriad Cyn Ymgeisio / Pre-Application Consultation**

(i) Proposed Portal Frame Building at Brynlluan, Porthyrhyd, SA32 8PR  
Penderfynwyd nodi / Resolved to note.

### **325/2018-19 Taliadau/ Payments**

Cadarnhawyd yr isod / The below were ratified

| Rhif Siec /<br>Cheque<br>Number | Dyddiad/<br>Date | Cyflenwr a manylion/ Suppliers and details  | Swm/<br>Sum<br>£ Gross |
|---------------------------------|------------------|---|------------------------|
| 1437                            | 15/03/19         | WCVA – Cyflogres - payroll agent Mawrth / March 2019  | 20.10                  |
| 1438                            | 15/03/19         | Cyflog a lwfans Clerc ar ol treth - cyfnod 12<br>Clerk salary and allowances after tax period 12                                    | 353.64                 |
| 1439                            | 15/03/19         | HMRC – PAYE cyfnodau / periods 10,11,12   | 265.20                 |
| 1440                            | 15/03/19         | Cyngor Sir Gar - Carmarthenshire County Council - anfoneb y flwyddyn am goleuadau troedffyrdd / annual invoice for footway lighting | 3,426.91               |
| 1441                            | 15/03/19         | Un Llais Cymru – ail aelodu /<br>One Voice Wales – renew membership   | 176                    |
| 1442                            | 15/03/19         | Neuadd Llanddarog Hall – cyfarfod / meeting   | 12                     |
| 1443                            |                  | SCRAP / SPOILED   | -                      |
| 1444                            | 20/03/19         | Menter Gwasanaethau – cyfieithu cyfarfodydd / translation at meetings   | 180                    |

### **326/2018-19 Derbyniadau /Receipts**

Dim / None

### **327/2018-19 Cyflwr presennol yr Ardal Gadwraeth, a'r tir cyfagos, yn Llanddarog / Current condition of the Conservation area, and adjacent land, in Llanddarog**

Rhoddodd y Cynghorydd J Williams drosolwg o'i bryderon mewn perthynas ag ymddangosiad a chyflwr yr ardal. Codwyd cwestiynau hefyd ynghylch cynnal a chadw'r ardal. Nodwyd bod y Cyngor Cymuned hwn yn torri'r gwair ar sail dymhorol ar hyn o bryd. Penderfynwyd nodi'r pryderon hyn a'u hailystyried maes o law. / *Cllr J Williams provided an overview of his concerns in relation to the appearance and condition of the area. Queries were also raised as to the maintenance of the area. It was noted that this Community*

*Council is currently cutting the grass on a seasonal basis. Resolved that these concerns be noted and revisited in due course.*

**328/2018-19 - Sefydliu safbwynt polisi'r Cyngor o ran darparu cofeb ryfel ym Mhorthyrhyd / Establishing the Council's policy position in terms of provision of a war memorial in Porthyrhyd**

Roedd y Cynghorydd J. Williams wedi gofyn i'r Cyngor i sefydlu ei safbwynt polisi. Darparwyd yr aelodau â chynghor cyfreithiol trwy Un Llais Cymru mewn perthynas â darparu cofebion newydd. Mae Cofebion Rhyfel (Deddf Awdurdodau Lleol) 1923 Adran 1 yn darparu ar gyfer gwariant rhesymol ar gyfer cynnal a chadw, atgyweirio a diogelu cofeb rhyfel er ei fod yn dawedog ynglŷn â gosod cofeb rhyfel newydd. Beth bynnag cyfeiriwyd at bwerau eraill allai fod ar gael yn amodol ar gyfyngder costau a chyfiawnhad polisi - rhain oedd Pŵer lles ac Adran 137. Penderfynwyd bod y Cyngor yn cytuno fel mater o bolisi ei fod yn gefnogol i gofeb rhyfel gael ei gosod ym Mhorthyrhyd. Bydd y Clerc yn ysgrifennu at Gwar Torcoed yn gofyn am gyfraniad o garreg, tra bydd y Cynghorydd J Williams yn cydlynu gweithredu'r prosiect hwn, yn cynnwys codi arian, ymchwilio, a lleoli'r garreg. Bydd y Cyngor yn rhoi symiau arian yn y gyllideb refeniw i'r dyfodol er mwyn ymgymryd â chynnal a chadw'r garreg. / *Cllr J Williams had requested that the Council establish its policy position. Members had been provided with legal advice via One Voice Wales in relation to provision of new memorials. The War Memorials (Local Authorities Act) 1923 Section 1 provides for reasonable expenditure for maintenance, repair and protection of a war memorial albeit it is silent on the costs of placing of a new memorial. Reference was made however to other powers which would be available subject to cost limits and policy justification – these were the Power of well being and Section 137. Resolved that the Council agree that as a point of policy it is supportive of a war memorial being placed in Porthyrhyd. The Clerk will write to Torcoed Quarry asking for donation of a stone, whilst Cllr J Williams will coordinate implementation of this project, including fundraising, researching and positioning of the stone. The Council will set aside sums in the future revenue budget for the undertaking of the maintenance of the stone.*

**329/2018-19 - Adroddiad ac argymhellion grŵp gweithio'r Adroddiad Archwilio Mewnol / Report and recommendations of the Internal Audit Report working group**

Darparwyd yr argymhellion ysgrifenedig i'r Cyngor cyn y cyfarfod. Roedd y grŵp yn argymhell (a) na ddylai'r Cyngor newid y broses gyfredol ar gyfer lwfans Dinesig y Cadeirydd, beth bynnag dylid cofnodi'n ffurfiol y dylai'r cadeirydd sy'n gorffen ddarparu rhestr o'r gwariant a wnaed yn ystod tymor ei swydd (b) na ddylai'r Cyngor newid y broses gyfredol o ddarparu grantiau refiniw ariannol sy'n bodoli eisoes i Sioe Llanddarog, Neuadd Llanddarog, Lles Porthyrhyd a Lles Mynyddcerrig- beth bynnag ar ôl anfon y grant dylai'r Cyngor nodi y byddai'n gwerthfawrogi petai cynrychiolydd o'r rhai a dderbyniodd yn mynychu cyfarfod o'r Cyngor er mwyn darparu trosolwg o'u gweithgaredd/gwaith o fewn y gymuned (c) parthed cynnig cyfraniadau/grantiau i sefydliadau eraill – dylai'r Cyngor darparu awdurdod i'r Cynghorydd M Rees a'r Clerc i weithio ar sefydlu gronfa datblygu gymunedol ar gyfer ei lansio o 2021/22 ymlaen. Dylid dod â'r gronfa arfaethedig nôl i'r



Cyngor ar gyfer ei chymeradwyo cyn ei lansio. Penderfynwyd cymeradwyo pob un o'r argymhellion a diolch i'r grŵp am eu gwaith. / *The written recommendations had been provided to Council in advance of the meeting. The group was recommending that (a) the Council make no change be made to the current process for the Chairman's Civic allowance, however it should be formally minuted that the outgoing Chairman must provide a list of expenditure made during the term of office (b) the Council make no change to the current process in providing of revenue grants to Llanddarog Show, Llanddarog Hall, Porthyrhyd Welfare and Mynyddcerrig Welfare – however upon sending the grant the Council is to state that it would appreciate it if a representative from the recipients could attend a Council meeting in order to provide an overview of their activity / work within the community (c) in relation to providing donations/grants to other organisations - the Council should provide authority to Cllr M Rees and the Clerk to work up a community development fund for launching from 2021/22 onwards. The proposed fund should be brought back to Council for approval before it is launched. Resolved to approve each of the recommendations and thank the group for its work.*

**330/2018-19 - Cadarnhau trefniadau ar gyfer rhoddion ariannol / Confirmation of arrangements for financial donations**

Fe fydd yr Aelodau yn derbyn rhestr o'r ceisiadau a dderbyniwyd yn ystod y flwyddyn ariannol drwy e-bost erbyn 17 Ebrill 2019. Penderfynwyd, bydd y Cadeirydd yn rhoi ei argymhellion ynghylch pwy i'w hariannu o'r rhestr yn cyfarfod mis Mai 2019 y Cyngor. Cadarnhawyd cyllideb o £400. / *Members will receive a list of the applications received during the financial year via e mail by the 17 April 2019. It was resolved that the Chairman provide his recommendations as to who to fund from the list at the May 2019 meeting of the Council. A budget of £400 was confirmed.*

**331/2018-19 - Cofrestr Aseidion ar 31/3/19 / Asset Register at 31/3/19**

Fe wnaeth Aelodau ystyried yr gofrestr a ddarparwyd o flaen llaw'r cyfarfod. Penderfynwyd cadarnhau'r gwerth archwiliad y gofrestr o £8,736. Fe nodwyd y gwerth yswiriant o £28,283, fodd bynnag mae angen edrych eto ar werth yswiriant cadwyn y Cadeirydd. / *Members considered the register that had been circulated in advance of the meeting. Resolved to confirm the register audit value of £8,736. The insurance value of of £28,283 was noted, however there is a need to look again at the insurance value of the Chairman's chain.*

**332/2018-19 - Mantolen cyfrifon 2018-2019 (balansau terfynol - wedi ei gysoni hyd at 31/3/19) /**

**Statement of accounts 2018-2019 (final balances - reconciled to 31/3/19)**

Fe wnaeth bod Aelod derbyn copi o'r adroddiad o flaen llaw'r cyfarfod. Y balans daeth ymlaen o'r flwyddyn ddiwethaf oedd £12,695.77 a'r balans mynd ymlaen fydd £12,070.67. Hefyd, fe rhoddwyd rhestr i'r Aelodau o wariant Adran 137 a'r ffigurau cyllideb terfynol. Penderfynwyd derbyn y fantolen a'i ddefnyddio fel sail i baratoi'r Cyfrifon Blynnyddol a'r Ffurflen Flynyddol ar gyfer y flwyddyn ariannol 2018/2019. / *Each Member received a copy of the report in advance of the meeting. The balance brought forward from last year was £12,695.77 and the balance going forward will be £12,070.67. Members were also provided with a list of Section 137 expenditure and the final budget figures. Resolved to accept the statement and utilise it as the basis for*

*preparing the Annual Accounts and Annual Return for the financial year 2018/2019.*

**333/2018-19 Adroddiad yr Arolygydd Ariannol Mewnol am y cyfnod 1/1/19 i 31/03/19 / Report of the Internal Financial Examiner for period 1/1/19 to 31/03/19.**

Rhodddwyd adroddiad ar lafar llawn gan Cyng R Jones (Arolygydd Ariannol Mewnol y Cyngor). Fe wnaeth bod Aelod derbyn copi o'i adroddiad ysgrifenedig cyn y cyfarfod. Dylid nodi fe wnaeth yr adroddiad cadarnhau cywirdeb y cysoniad at y banc a mantolen cyfrifon rhodddwyd i'r Cyngor (cofnod 332/2018-19 - hy hyd at 31/03/19). Hefyd, fe wnaeth yr adroddiad cadarnhau cywirdeb yr adroddiad ar y gyllideb derfynol. Penderfynwyd derbyn yr adroddiad a diolch i Cyng Jones a'r Clerc am ei gwaith. / *A full verbal report was provided by Cllr R Jones (Internal Financial Examiner for the Council). Each Member had been provided with a written copy of his report before the Meeting. It should be noted that the report confirmed the accuracy of the bank reconciliation and statement of accounts provided to the Council (minute 332/2018/19 - i.e. to 31/03/19). It also confirmed the accuracy of the final budget report provided to the Council. It was resolved to accept the report and thank Cllr Jones and the Clerk for their work.*

**334/2018-19 Adolygiad o'r Archwiliad Mewnol a chadarnhau'r Cynllun Archwiliad am 2018-19 / Internal Audit review and confirmation of the Audit Plan for 2018-2019.**

Fe wnaeth Aelodau ystyried adroddiad ysgrifenedig a ddarparwyd o flaen llaw'r cyfarfod. Roedd yr adroddiad a'r broses adolygiad wedi ei seilio ar y canllawiau o fewn "Governance and Accountability for Local Councils (Wales)", yn enwedig Atodiad 5. Penderfynwyd fel y ganlyn (a) bod yn cael ei nodi fod adolygiad wedi cael ei gynnal ar gyfer y rheoliadau (b) bod Mr Lewis M Jones i'w benodi am swm o £50.00 (c) bod y llythyr ymrwymo yn cael ei gymeradwyo, yn amodol ar un mân newidiadau golygyddol (d) Fod y Cynllun Archwiliad / cwmpas yn cael ei gymeradwyo, yn amodol ar ddileu'r cyfeiriad at GDPR a chynnwys cyfeiriad at y Cyngor yn archwilio'r posibilrwydd o drafodion bancio ar-lein. / *Members considered a written report which had been circulated in advance of the meeting. The report and review process was based upon the guidance contained within Governance and Accountability for Local Councils (Wales), notably Appendix 5. Resolved that (a) It be noted that a review has been undertaken for the purposes of the regulations (b) That Mr Lewis M Jones be appointed for the sum of £50.00 (c) That the letter of instruction be approved, subject to minor editorial amendments (d) That the audit plan / scope be approved, subject to removal of reference to GDPR and inclusion of reference to the Council exploring the possibility of online banking transactions.*

**335/2018-19 Fforwm er mwyn i Aelodau i godi adroddiadau / cwestiynau drwy'r Cadeirydd / Forum in order for Members to raise reports / questions through the Chairman.**

(a) Nodwyd bod y baneri bellach wedi ei chodi yn Llanddarog, Porthyrhyd a Mynyddcerrig. Nid oes unrhyw faneri yn cael ei storio gyda'r Clerc neu'r Cyng. J Youens bellach gan ei bod wedi defnyddio y flwyddyn yma. Penderfynwyd archebu baneri newydd yn flynyddol a thrwsio'r mecanweithiau cloi. / *It was noted that the flags are now up in Llanddarog, Porthyrhyd and Mynyddcerrig.*

*There are no flags left in storage with the Clerk or Cllr J Youens as they have been used this year. Resolved that new flags be ordered on an annual basis and that the locking mechanisms be repaired.*

(b) Codwyd ymholiad ynghylch dyddiad cyfarfod nesaf Grŵp Cynghorau Cymuned y Gwendraeth. Penderfynwyd gofyn i Fenter Cwm Gwendraeth i gynghori. / *A query was raised as to the date of the next Gwendraeth Group of Community Councils meeting. Resolved that Menter Cwm Gwendraeth be asked to advise.*

(c) Rhoddodd y Cynghorydd R Jones adroddiad llawn ar gyfarfod Fforwm Cyswllt Cynghorau Tref a Chymuned Cyngor Sir Caerfyrddin. Penderfynwyd nodi a diolch i'r Cyng. R Jones. / *Cllr R Jones provided a full report on Carmarthenshire County Council's Town and Community Council Liaison Forum meeting. Resolved to note and thank Cllr R Jones.*

(d) Codwyd ymholiadau ynglyn â'r sefyllfa ddiweddaraf gyda'r datblygiad tai arfaethedig gyferbyn â Neuadd Llanddarog. Rhoddodd y Cyng. M Rees y wybodaeth ddiweddaraf i'r Cyngor am ei dealltwriaeth hi o'r sefyllfa. Penderfynwyd nodi. / *Queries were raised at to the latest position with the proposed housing development opposite Llanddarog Hall. Cllr M Rees updated the Council as to her understanding of the present position. Resolved to note.*

(e) Adroddodd y Cynghorydd J Williams ar bryderon ynglŷn â chyflwr y blwch ffôn gyferbyn â'r Prince of Wales ym Mhorthyrhyd ynghyd â blwch post sydd ar goll ger swyddfa'r post yn Llanddarog. Penderfynwyd gweithredu'r pryderon hyn. / *Cllr J Williams reported on concerns with regards to the condition of the phone box opposite the Prince of Wales in Porthyrhyd along with a missing post box adjacent the post office in Llanddarog. Resolved to action these concerns.*

#### **336/2018-19 Mewn camera/ In camera**

Fe wnaeth y rhai nad oeddynt yn Aelodau'r Cyngor Cymuned, neu'r Clerc, adael am 9.35pm - heb ddychwelyd. Mae'r gwahardd oherwydd materion Personél /staff yn cael ei thrafod / Those who were not Community Council Members, or the Clerk, departed at 9.35pm, not to return. The exclusion is due to personnel / staffing matters being discussed.

#### **337/2018-19 Arolwg y Clerc / Clerk's Appraisal**

Dylid cyfeirio at gofnod 314/2018-19. Datganodd y Clerc ddiddordeb a gadawodd yr ystafell am 9.35pm, i beidio â dychwelyd tan ddiwedd adroddiad ar lafar y Cadeirydd a thrafodaethau'r Cyngor am 9.43pm. Derbyniodd pob Aelod gopi o adroddiad ysgrifenedig ymlaen llaw, ac ategwyd yn briodol iddo gan adroddiad ar lafar y Cadeirydd. Roedd y Cadeirydd wedi cynnal arfarniad y Clerc. Penderfynwyd:

(a) Nodi fod y Cyngor wedi cael ei ofyn i gadarnhau bod y Clerc yn mynd i fyny pwynt ar ei raddfa gyflog o Ebrill 1 2019 ymlaen yn unol â chytundeb cyflog cenedlaethol 2019-2020. Byddai hyn yn golygu bod y Clerc yn symud i bwynt 10 ar y raddfa newydd (LC1 pwyntiau 7-12). Fodd bynnag, roedd y Cyngor yn dymuno rhoi'r Clerc ar bwynt 11, i gydnabod ei berfformiad a'i

brofiad. Felly, bydd y Clerc yn cael ei roi ar bwynt 11 ar yr amod y caiff y Cyngor gadarnhad wrth Un Llais Cymru y gall y Cyngor symud y Clerc i fyny 'dau bwynt' ar y raddfa. Fe fydd ôl-daliad yn cael ei rhoi fel y bo'n briodol hyd at fis Ebrill 2019 petai'r Clerc yn cael ei roi ar bwynt 11.

(b) Bod y Cyngor yn cadarnhau'r cynnydd blynyddol o 1.8% yn lwfansau'r Clerc o Ebrill 2019 ymlaen yn unol â chyfradd 12 mis y Mynegai Prisiau Defnyddwyr (CPI) ym mis Ionawr 2019.

*/ Reference should be made to minute 314/2018-19. The Clerk declared an interest and left the room at 9.35pm, not to return until the end of the Chairman's verbal report and Council's deliberations at 9.43pm. Each Member received a copy of a written report beforehand, which was suitably supplemented by the Chairman's verbal report. The Chairman had undertaken the Clerk's appraisal. It was resolved that:*

*(a) It be noted that the Council had been asked to ratify the Clerk progressing a point on his pay scale from April 1 2019 onwards in accordance with the 2019-2020 national pay agreement. This would mean the Clerk moving to point 10 on the new scale (LC1 points 7-12). The Council however wished to place the Clerk on point 11, in recognition of his performance and experience. The Clerk will therefore be placed on point 11 subject to confirmation being attained from One Voice Wales that the Council that it can move its Clerk up 'two points' on the scale. Backpay will be given as appropriate to April 2019 should the Clerk be placed on point 11.*

*(b) The Council ratify the annual increase in the Clerk's allowances by 1.8% from April 2019 onwards in accordance with the Consumer Price Index (CPI) 12 month rate in January 2019.*

**338/2018-19 Materion Cyflog a lwfansau Cyfnod 1 2019-20 /**  
**Salary and allowances matters period 1 2019-20**

Fe wnaeth bod Aelod derbyn copi o'r adroddiad o flaen llaw. Fe benderfynwyd derbyn yr adroddiad a chadarnhau talu'r symiau fel y cyflwynwyd. / *Each Member had been provided with a written report in advance of the meeting. It was resolved to accept the report and ratify payment of sums as presented.*

**339/2018-19 Adolygiad parhaol o sefyllfa ymrestru awtomatig /**  
**Continued review of auto enrolment position**

Fe wnaeth bod Aelod dderbyn adroddiad ysgrifenedig o flaen llaw'r cyfarfod. Fe wnaeth yr adroddiad amlinellu'r sefyllfa bresennol o ran cymhwysedd y Clerc ar gyfer ymrestru awtomatig. Nid yw'r Clerc wedi gofyn i ymuno gyda chynllun. Penderfynwyd nodi'r adolygiad fel y ganlyn. / *Each Member had been provided with a written report in advance of the meeting. The report outlined the present position in relation to the Clerk's eligibility for auto enrollment. The Clerk has not asked to join a scheme. Resolved to note the review accordingly.*

**340/2018-19 Daeth y cyfarfod i ben am 9.44pm /**  
**The meeting finished at 9.44pm**